OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 370 (Cy. 91)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD
# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU
# RHEOLI MOROL, CYMRU

## Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - -* | *18 Chwefror 2019* |
| *Gwnaed - - - -* | *25 Chwefror 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)* | |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (sy'n ymwneud â gweithdrefn briodol y Cynulliad ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae i ddiwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn yr un cymhwysiad â'r deddfiad sy'n cael ei ddiwygio.

(**1**) 2018 p. 16 .

**Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006**

**2.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006(**2**), yn y diffiniad o "cwch pysgota trwyddedig", hepgorer "gan Aelod-Wladwriaeth arall neu".

**Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011**

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 3, mewnosoder—

"**3A Addasu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff**

(1) At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff i'w darllen yn unol â'r erthygl hon.

(2) Mae cyfeiriad at un Aelod-wladwriaeth neu ragor mewn darpariaeth sy'n gosod rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau, neu sy'n rhoi disgresiwn iddi neu iddynt, i'w ddarllen fel cyfeiriad at yr awdurdod priodol neu'r awdurdod lleol a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, yn gyfrifol am gydymffurfedd y Deyrnas Unedig â'r rhwymedigaeth honno neu a oedd yn gallu arfer y disgresiwn hwnnw o ran Cymru.

(3) Mae Erthygl 2 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 2—

(i) yn y geiriau yn union cyn pwynt (a), "retained EU law" wedi ei roi yn lle "other Community legislation";

(ii) ym mhwyntiau (b) ac (c), "Regulation (EC) No 1069/2009" wedi ei roi yn lle "Regulation (EC) No 1774/2002";

(iii) ym mhwynt (d), "the Mining Waste Directive" wedi ei roi yn lle'r geiriau o "Directive 2006/21/EC(**4**)" hyd at y diwedd;

(b) ym mharagraff 3, y geiriau o "Without prejudice" hyd at "Community legislation" wedi eu hepgor;

(c) paragraff 4 wedi ei hepgor.

(4) Mae Erthygl 5 i'w darllen fel pe bai paragraff 2 wedi ei hepgor.

(5) Mae Erthygl 6 i'w darllen fel pe bai—

(a) paragraffau 1 i 3 wedi eu hepgor;

(b) ym mharagraff 4—

(i) yn y frawddeg gyntaf, "Except where waste ceases to be waste in accordance with Council Regulation (EU) No 333/2011, Commission Regulation (EU) No 1179/2012 or Commission Regulation (EU) No 715/2013" wedi ei roi yn lle'r geiriau o "Where criteria" hyd at "paragraphs 1 and 2";

(ii) yr ail frawddeg wedi ei hepgor.

(6) Mae Erthygl 7 i'w darllen fel pe bai—

(**2**) O.S. 2006/1495 (Cy. 145) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2018/1095 (Cy. 228).
(**3**) O.S. 2011/559 (Cy. 81) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/414 (Cy. 50), O.S. 2013/755 (Cy. 90), O.S. 2016/690 (Cy. 188), O.S. 2017/1012, O.S. 2017/1013, O.S. 2018/724 (Cy. 141), a chan Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) .
(**4**) OJ Rhif L 102, 11.4.2006, t. 15, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 188, 18.7.2009, t. 14).

(a) ym mharagraff 1—

(i) y frawddeg gyntaf a'r ail frawddeg wedi eu hepgor;

(ii) yn y drydedd frawddeg, "shall, subject to paragraph 1A, be binding" wedi ei roi yn lle "shall be binding";

(b) ar ôl paragraff 1, y canlynol wedi ei fewnosod—

"**1A.** Paragraph 1 is subject to—

(a) a determination by the Welsh Ministers under regulation 8(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005(**5**) that a specific batch of waste is to be treated as hazardous waste;

(b) a decision made by the Welsh Ministers under regulation 9(1) of the Hazardous Waste (England and Wales) Regulations 2005(**6**) that a specific batch of waste is to be treated as non-hazardous waste;

(c) the treating of a specific batch of waste as hazardous or, as the case may be, non-hazardous, in accordance with regulation 8(2) or 9(2) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;

(d) regulations (if any) made by the Welsh Ministers under section 62A(2) of the Environmental Protection Act 1990(**7**) (lists of waste displaying hazardous properties).";

(c) paragraffau 2, 3 a 5 wedi eu hepgor;

(d) ar ôl paragraff 6, y canlynol wedi ei fewnosod—

"**6A.** In this Article, the "list of waste" means the list established by Commission Decision 2000/532/EC.";

(e) paragraff 7 wedi ei hepgor.

(7) Mae Erthygl 23 i'w darllen fel pe bai—

(a) cyfeiriad at y "competent authority" yn gyfeiriad at yr "appropriate authority";

(b) ym mharagraff 5, "or Community" wedi ei hepgor.

(8) Mae Atodiad 3 i'w ddarllen fel pe bai, yng nghofnod HP 9, yn yr ail frawddeg, "in the Member States" wedi ei hepgor.

(9) Wrth ddarllen y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn unol â'r erthygl hon—

(a) ystyr "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*") yw Gweinidogion Cymru neu Gorff Adnoddau Naturiol Cymru;

(b) ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

**3B Ystyr "y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio"**

(1) Wrth ddarllen Erthygl 2 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn unol ag erthygl 3A, ystyr y cyfeiriad at "the Mining Waste Directive" (fel y'i mewnosodir gan erthygl 3A(3)(a)(iii)) yw Cyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnol, y'i darllenir yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Mae Erthygl 2 i'w darllen fel pe bai—

(**5**) O.S. 2005/1806 (Cy. 183).
(**6**) O.S. 2005/894.
(**7**) 1990 p. 43 .

(a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC(**8**) yn gyfeiriad at yr Erthygl honno, y'i darllenir yn unol â pharagraff (4) o'r erthygl hon;

(b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor.

(3) Mae Erthygl 3(1) i'w darllen fel pe bai "Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive" wedi ei roi yn lle "Article 1(a) of Directive 75/442/EEC".

(4) Wrth ddarllen y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio yn unol â'r erthygl hon, mae i'r cyfeiriad at y "Waste Framework Directive" (fel y'i mewnosodir gan baragraff (3)) yr ystyr a roddir gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, y'i darllenir yn unol ag erthygl 3A.

(5) At ddibenion paragraff (2), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC i'w darllen fel pe bai—

(a) y cyfeiriadau at "Member States" yn gyfeiriadau at "Weinidogion Cymru neu Gorff Adnoddau Naturiol Cymru";

(b) ar y diwedd, y canlynol wedi ei fewnosod—

"and "environmental objective", in relation to a river basin district (within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017)(**9**), has the same meaning as in those Regulations.""

(3) Yn erthygl 33(2)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "(ac eithrio Gibraltar) nad yw'n Aelod-wladwriaeth; a" rhodder "ac eithrio'r Deyrnas Unedig.";

(b) hepgorer is-baragraff (b).

**Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016(**10**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad o "gweithrediad a gymeradwywyd", ar y diwedd, mewnosoder "(gweler paragraff 3)";

(ii) yn y diffiniad o "person awdurdodedig", hepgorer ", ac mae'n cynnwys unrhyw swyddog y Comisiwn a benodwyd yn briodol ac sy'n mynd gyda'r person awdurdodedig hwnnw";

(iii) hepgorer y diffiniad o "y Comisiwn";

(iv) hepgorer y diffiniad o "cymorth yr UE";

(v) yn y diffiniad o "gweithrediad", ym mharagraff (b), yn lle "cymorth yr UE" rhodder "cymorth yn unol â Rheoliad 508/2014".

(b) ar ôl paragraff (2), mewnosoder—

"(3) Er mwyn osgoi amheuaeth, mae "gweithrediad a gymeradwywyd" yn cynnwys gweithrediad a gymeradwywyd mewn ysgrifen gan Weinidogion Cymru i gael cymorth ariannol o dan reoliad 4 cyn y diwrnod ymadael."

(**8**) OJ Rhif L 327, 22.12.2000, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2014/101/EC (OJ Rhif L 311, 31.10.2014, t. 32).
(**9**) O.S. 2017/407, y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**10**) O.S. 2016/665 (Cy. 182).

(3) Yn rheoliad 8(2)(d), yn lle "cymorth yr UE" rhodder "cymorth yn unol â Rheoliad 508/2014".

(4) Yn rheoliad 11—

(a) hepgorer paragraff (1)(j)(i);

(b) hepgorer paragraff (3).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

25 Chwefror 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru a pharth Cymru, ym meysydd pysgodfeydd a rheoli morol.

Mae i ddiwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn yr un cymhwysiad â'r deddfiad sy'n cael ei ddiwygio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.